# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 32(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 3 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18

(30 munud)

**NDM6139** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18, fel y nodir yn Nhabl 1 o "Gyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017-18", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Tachwedd 2016 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18

Llythyr ymateb Comisiwn y Cynulliad at y Pwyllgor Cyllid

## 4 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6145** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae gweithwyr o dramor wedi'i wneud i ofal a thriniaeth cleifion yn y GIG.

2. yn galw ar Lywodraeth Cymru, drwy negodi â Llywodraeth y DU, i sicrhau pwerau i gyhoeddi trwyddedau gwaith i wladolion o dramor weithio yn y GIG yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd GIG Cymru yn parhau i fedru recriwtio gweithwyr gofal iechyd cymwys a anwyd ac a hyfforddwyd dramor, os a phan fo angen, ar ôl i'r DU adael yr UE, ac i edrych ar bob opsiwn ar gyfer hwyluso hynny.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 3.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi rheolau mewnfudo synhwyrol i'r DU, gan gynnwys cyfundrefn trwydded waith a fisa i lenwi'r bylchau sgiliau yn GIG Cymru.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6146** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod adroddiadau yn datgan bod Llywodraeth y DU wedi derbyn £8 biliwn gan Gynllun Pensiwn y Glowyr (MPS), yn unol â threfniadau presennol sy'n golygu ei bod yn cael 50 y cant o warged MPS, ac yn nodi ymhellach bod Llywodraeth y DU wedi cael £750 miliwn mewn taliadau gwarged yn 2014 yn unig.

2. Yn galw am adolygiad o'r trefniant rhannu gwarged 50/50 rhwng Llywodraeth y DU ac MPS, fel y caiff ei gefnogi gan Undeb Cenedlaethol y Glowyr.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill, ac arweinwyr lleol a rhanbarthol yn Lloegr, i sicrhau adolygiad Llywodraeth y DU o'r trefniadau gwarged MPS a cheisio sicrhau bod Llywodraeth y DU yn parhau i weithredu fel gwarantydd MPS.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y Cynnig:

Yn cydnabod bod bodolaeth gwarant wedi galluogi'r ymddiriedolwyr i fuddsoddi mewn ffordd sydd wedi cynhyrchu gwargedion a thaliadau bonws, o ganlyniad, i aelodau.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6140** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad pwysig a gwerthfawr a wneir i gymdeithas Cymru gan bobl hŷn.

2. Yn credu bod pobl hŷn yn haeddu urddas a pharch, yn ogystal ag annibyniaeth a'r rhyddid i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd i bobl hŷn drwy roi cap ar gostau a diogelu £100,000 o asedion ar gyfer y rhai sydd mewn gofal preswyl i sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes a'u cartrefi i gostau gofal.

4. Yn nodi canfyddiadau adroddiad ar ddementia a gafodd ei gynhyrchu gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn tynnu sylw at yr anawsterau a gaiff pobl sydd â dementia o ran cael gafael ar wybodaeth, cymorth a gwasanaethau a all wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) Cyflwyno Bil Hawliau Pobl Hŷn, i ehangu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn;

(b) Rhoi dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i ymgynghori â phobl hŷn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; ac

(c) Sicrhau mai Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU sy'n ystyriol o ddementia.

['Adroddiad Dementia']

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r terfyn cyfalaf i £50,000, a fydd yn galluogi rhagor o bobl yng Nghymru i gadw rhagor o'u hasedau pan fyddant yn symud i ofal preswyl.

**Gwelliant 2.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at yr oedi parhaus gan Lywodraeth y DU o ran diwygio'r trefniadau ar gyfer talu am ofal.

**Gwelliant 3.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn nodi:

a) bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi awgrymu Bil Hawliau Pobl Hŷn i Gymru;

b) bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r egwyddor o Fil;

c) y bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd camau pellach i wneud Cymru'n wlad sy'n ystyriol o ddementia drwy ddatblygu a gweithredu cynllun dementia cenedlaethol newydd.

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliannau 4, 5, 6 a 7 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu is-bwynt 5a) a rhoi yn ei le:

'cefnogi gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o weithio tuag at ymestyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn;'

**Gwelliant 5.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu pwynt 5b) a rhoi yn ei le:

'cefnogi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o ran sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau cyhoeddus;'

**Gwelliant 6.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

'adeiladu rhagor o dai â chymorth er mwyn ehangu dewis ac ategu gofal preswyl a sefydliadol.'

**Gwelliant 7.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

'gweithio gyda chomisiynwyr yr heddlu a throseddau ac awdurdodau lleol i ddiogelu pobl hŷn rhag sgamiau, cam-werthu a ffyrdd eraill o ymelwad ariannol.'

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6141**

Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi diddymu tollau ar bontydd Hafren ar ôl eu dychwelyd i'r sector cyhoeddus.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn galw ar lywodraethau Cymru a'r DU i archwilio pob agwedd ar gyllido ar gyfer y ddwy bont Hafren pan gânt eu dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus.

2. Yn nodi bod asesiadau blaenorol wedi dangos y byddai cyfanswm y drafnidiaeth yn cynyddu o leiaf 25 y cant pe bai'r tollau'n cael eu diddymu

3. Yn galw am gynnal asesiad traffig gan Traffig Cymru er mwyn llywio'r penderfyniad i ddiddymu tollau ar sail gallu'r system drafnidiaeth o amgylch i ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn trafnidiaeth

4. Yn credu y dylai defnydd o'r pontydd heb dollau fod yn flaenoriaeth os y gellir cadarnhau dyfodol hirdymor y ddwy bont drwy gyllidebau presennol heb unrhyw effaith ar brosiectau trafnidiaeth eraill ledled Cymru,

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn galw am ddatganoli'r cyfrifoldeb dros bontydd Hafren pan maent yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, ac yn cefnogi diddymu tollau sy'n daladwy ar y croesfannau.

**Gwelliant 3.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ychwanegu pwyntiau 1 a 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

1. Yn nodi'r manteision y byddai diddymu tollau ar bontydd Hafren yn eu cynnig i economi Cymru.

2. Yn credu nad oes achos dros barhau i godi tollau ar bontydd Hafren i ariannu gwaith cynnal a chadw ar ôl i'r consesiwn ddod i ben gan eu bod yn dreth annheg ar bobl a busnesau Cymru.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6142** Hefin David (Caerffili)

Gwerth Busnesau Bach a Chanolig i Economi Cymru.

## 10 Dadl Fer – gohiriwyd o 9 Tachwedd

(30 munud)

**NDM6133** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Colli gwaith ymchwil y galon yn Ysgol Feddygol Caerdydd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2016